



Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

Polisi Cwricwlwm

Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol: 17 Mawrth 2016

Llofnod y Cadeirydd: _____

Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol: 30 Mawrth 2017

Llofnod y Cadeirydd: _____

Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol: _____

Llofnod y Cadeirydd: _____

Polisi Cwricwlwm

Rhagarweiniad

Mae'r ysgol yn ymrwymedig i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys, sydd yn ymateb i ofynion statudol, datblygiadau cyfredol yn y maes a diddordebau penodol ein dysgwyr. Sicrhawn fynediad cyfartal i bob dysgwr gan gynnig iddynt gyfleoedd addysgol o safon gyson uchel er mwyn iddynt ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i'w galluogi i gyrraedd eu potensial llawn ac i fod yn ddysgwyr hyderus gydol oes.

Trefnir y cwricwlwm er mwyn hybu datblygiad deallusol, personol, cymdeithasol a chorfforol y dysgwr. Yn ogystal cyniga'r cwricwlwm profiadau yn y meysydd canlynol i ddysgwyr:

- Esthetig a chreadigol
- Dynol a chymdeithasol
- Iaith a llenyddiaeth
- Mathemategol
- Ysbrydol a moesol
- Gwyddonol a thechnolegol

Egwyddorion Sylfaenol

Mae'r ysgol yn cydnabod hawl y disgybl unigol i'r canlynol:

Cwricwlwm eang a chytbwys

Anelir yn gyson i ddarparu cwricwlwm sydd yn ceisio hybu datblygiad deallusol a chorfforol y disgyblion a hefyd sydd yn anelu at eu paratoi ar gyfer y cyfrifoldebau, y cyfleoedd a'r profiadau y byddant yn wynebu yn eu bywyd fel oedolion.

Cwricwlwm hyblyg a pherthnasol

Wrth drefnu a darparu'r cwricwlwm mae'r ysgol yn ceisio cymryd i ystyriaeth anghenion, galluoedd a diddordebau disgyblion unigol er mwyn eu paratoi i fod yn aelodau gwerthfawr o'r gweithlu a'r gymuned.

Cydlyniant

Anelir wrth ddatblygu'r cwricwlwm i sicrhau cydlyniant o fewn a rhwng pynciau, gofynion cyffredin y cwricwlwm a'r cwricwlwm cudd.

Dilyniant a pharhad

Mae'r ysgol yn ceisio sicrhau dilyniant a pharhad o fewn y pynciau a gynigir ar draws Blynyddoedd 7 i 13, yn y safonau a gyrhaeddir gan ddisgyblion ac yn ansawdd y dysgu a'r addysgu.

Integredd

Ceisir sicrhau trwy'r ddarpariaeth gwricwlaidd bod safonau cyrhaeddiad y dysgwyr ac ansawdd y dysgu a'r addysgu yn cael eu cynnal a'u gwella yn barhaus. Disgwylir i bynciau, manylebau a'r systemau achredu a ddewiswyd i gael eu hintegredd mewnol eu hunain – gan sicrhau statws, llymder ac addasrwydd at bwrpas.

Effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Mae'r ysgol yn anelu , trwy'r ddarpariaeth gwricwlaidd, i sicrhau bod yr addysg a gynigir i ddisgyblion o safon gyson uchel ac yn gwneud hyn trwy ddefnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau.

Gweithredu'r Cwricwlwm

Mae'r cwricwlwm yn cael ei ddarparu fel a ganlyn yn y Cyfnodau Allweddol:

Cyfnod Allweddol 3

Mae cwricwlwm CA3 wedi ei gynllunio fel a ganlyn ar sail 50 awr o oriau cyswllt y pythefnos.

Pwnc	Blwyddyn 7 Oraiau Cyswllt	Blwyddyn 8 Oraiau Cyswllt	Blwyddyn 9 Oraiau Cyswllt
Saesneg	6	6	6
Cymraeg	6	6	6
Mathemateg	6	6	6
Gwyddoniaeth	5	5	6
Hanes	3	3	3
Daearyddiaeth	3	3	3
Addysg Grefyddol	3	2	2
Drama	2	2	2
Cerdd	2	2	2
Celf	2	2	2
Dylunio a Thechnoleg	3	3	3
Ffrangeg	4	4	3
Technoleg Gwybodaeth	1	1	1
Addysg Bersonol a Chymdeithasol	1	1	1
Chwaraeon	2	2	2
Ymarfer Corff	1	2	2

Ym Mlwyddyn 7 mae'r ysgol yn darparu gwersi gallu cymysg ymhob pwnc yn y brif ffrwd; darperir gwersi penodol ar gyfer dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer Cymraeg, Mathemateg Saesneg a Gwyddoniaeth. Ym Mlwyddyn 7 hefyd sefydlir grŵpiau Llythrennedd a Rhifedd ar gyfer Blwyddyn 7.

O flwyddyn 8 ymlaen mae Gwyddoniaeth, Mathemateg a Chymraeg yn ffrydio disgyblion ar sail gallu yn y pwnc. Adolygir trefniadaeth y grwpiau hyn yn flynyddol o dan arweiniad y Pennaeth Adran neu Gydlynnydd pwnc. Yn ogystal ym Mlynnyddoedd 8 a 9 ychwanegir grwpiau ADY ar gyfer y gyfadrn Dyniaethau.

Hefyd, o fewn y pynciau mae disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cyfathrebu, Rhifedd, TGCh, Gweithio Gydag Eraill, Datrys Problemau a Gwella’ch Dysgu a’ch Perfformiad eich Hun.

Cyfnod Allweddol 4

Mae’r ysgol yn bodloni gofynion Llwybrau Dysgu 14-19 trwy gynnig 25 cwrs, sy’n cynnwys o leiaf 3 opsiwn galwedigaethol. Cynigir rhai o’r cyrsiau galwedigaethol mewn partneriaeth gyda Choleg Sir Gar.

Bwriad y cwricwlwm yw darparu her, ysgogiad a chynhwysiad addas i’r holl ddisgyblion gan ystyried eu gwahanol ddiddordebau a galluoedd.

Mae pob disgybl yn dilyn cwrs craidd o Gymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth i lefel arholiad allanol, yn ogystal â’r cwrs TGAU (Cwrs Byr) Addysg Grefyddol a thystysgrif TGCh Sgiliau Hanfodol Cymru. Maent hefyd yn dilyn cyrsiau di-arholiad mewn Addysg Gorfforol ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol.

Mae dewis o dri chwrs arholiad pellach yn arwain naill ai at TGAU, Tystysgrif Llwybrau Dysgu, neu gymhwyster galwedigaethol Lefel 1 neu Lefel 2. Cydlynir y broses opsiynau gan Pennaeth Blwyddyn 9 yn dilyn trafodaeth gyda’r Pennaeth Cynorthwyol (Cwricwlwm).

I ddysgwyr sydd yn ei gweld hi’n anodd cael mynediad i’r cwricwlwm llawn darperir profiad gwaith iddynt er mwyn hwyluso eu trosglwyddiad i sefydliadau addysg ôl 16 megis Coleg Sir Gâr neu i fyd gwaith. Cydlynir hyn gan y Cynorthwydd Gweinyddol mewn trafodaeth gyda’r Cydgysylltydd Gyrfau/Byd Gwaith, y Pennaeth Blwyddyn, y SENCO a’r Pennaeth Cynorthwyol (Cwricwlwm). Yn ogystal rhoddir cyfleoedd i rhai disgyblion, yn ôl eu gofynion addysgol, i fynychu cyrsiau megis SMART.

Hefyd o fewn y pynciau, a’r gwersi ABCh, mae disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau Gweithio Gydag Eraill a Gwella’ch Dysgu a’ch Perfformiad eich Hun. Yn ogystal bydd pob disgybl yn cael y cyfle i baratoi portffolio ar gyfer cymwysterau Sgiliau Allweddol Lefel 2 mewn Cyfathrebu, Rhifedd, TGCh a Datrys Problemau.

Mae cwricwlwm CA4 wedi ei gynllunio fel a ganlyn ar sail 50 awr o oriau cyswllt y pythefnos.

		Pwnc	Oriau Cyswllt	Darparwr
Pynciau Gorfodol	au Opsiwn	Saesneg	6	Ysgol
		Cymraeg	6	Ysgol
		Mathemateg	6	Ysgol
		Gwyddoniaeth (Bioleg, Cemeg, Ffiseg)	12	Ysgol
		Addysg Bersonol a Chymdeithasol	1	Ysgol
		Addysg Grefyddol (Cwrs Byr TGAU)	1	Ysgol
		Technoleg Gwybodaeth (Sgiliau)	1	Ysgol
		Ymarfer Corff	2	Ysgol
Pynciau Gorfodol	au Opsiwn	Addysg Gorfforol	5	Ysgol
		Busnes	5	Ysgol

		Celf a Dylunio	5	Ysgol
		Cerddoriaeth	5	Ysgol
		Daearyddiaeth	5	Ysgol
		Drama	5	Ysgol
		Dylunio a Thechnoleg	5	Ysgol
		Ffrangeg	5	Ysgol
		Hanes	5	Ysgol
		Sbaeneg	5	Ysgol
	Cyrsiau Galwedigaethol	Adeiladwaith (Lefel 1/Lefel 2)	5	Ysgol
		Amaethyddiaeth	5	CSG
		Arlwyo	5	Ysgol
		Celfi Coed (Lefel 1)	5	Ysgol
		Ffasiwn (Lefel 2)	5	CSG
		Iechyd a Gofal	5	Ysgol
		Technoleg Gwybodaeth	5	Ysgol
		Trin Gwallt (Lefel 1/2)	5	CSG

Cwricwlwm Cyfnod Allweddol 5

Mae'r ysgol yn bodloni gofynion Llwybrau Dysgu 14-19 trwy gynnig 30 cwrs, sy'n cynnwys o leiaf 5 opsiwn galwedigaethol ar draws 3 parth.

Mae'r strwythur dewisiadau yn caniatáu i fyfyrwyr astudio tri, pedwar neu bum pwnc Safon Uwch Gyfrannol (UG/AS) ym mlwyddyn 12. Cyngorir disgyblion ar y nifer o bynciau i astudio yn seiliedig ar eu proffil TGAU. Ar ddechrau BI13, yn dibynnu ar eu canlyniadau UG/AS, parha'r mwyafrif o fyfyrwyr gyda thri neu bedwar pwnc ar gyfer Cwrs Uwch (A2).

Gosodir y pynciau opsiwn mewn blociau ar sail arolwg manwl o ddewisiadau rhydd myfyrwyr. Cydlynir y broses gan y Bennaeth Cynorthwyol (Cwricwlwm).

Mae'r ysgol wedi sefydlu'r Bartneriaeth Addysg Gymraeg er mwyn cynnig cyrsiau ar y cyd gydag ysgolion Y Strade a Maes Y Gwendraeth.

		Pynciau	Darparwr
Pynciau Opsiwn	Pynciau UG ac A2	Addysg Gorfforol	Ysgol
		Addysg Grefyddol	Ysgol
		Bioleg	Ysgol
		Celf a Dylunio	Ysgol
		Cemeg	Ysgol
		Cerddoriaeth	Ysgol
		Cymdeithaseg	Ysgol
		Cymraeg	Ysgol
		Daearyddiaeth	Ysgol
		Drama	Ysgol
		Dylunio a Thechnoleg	Ysgol
		Dylunio a Thechnoleg (Bwyd)	Ysgol
		Ffiseg	Ysgol

		Ffrangeg *	PAG
		Gwleidyddiaeth *	Ysgol
		Hanes	Ysgol
		Mathemateg	Ysgol
		Mathemateg Ychwanegol (UG) *	PAG
		Saesneg (Llenyddiaeth)	Ysgol
		Sbaeneg *	PAG
		Seicoleg *	PAG
		Technoleg Cerdd *	PAG
		Technoleg Gwybodaeth	Ysgol
		Y Bagloriaeth Gymraeg	Ysgol
		Y Gyfraith *	PAG
	Pynciau Opsiwn Galwedigaethol (UG, A2, BTEC, CACHE)	Adeiladwaith (Lefel 2)	Ysgol
		Busnes	Ysgol
		Electroneg *	PAG
		Ffasiwn (Lefel 3) *	CSG (PAG)
		Gofal Plant (Lefel 2/Lefel 3)	CACHE (PAG)
		Gwasanaethau Cyhoeddus *	PAG
		Gwyddoniaeth Gymhwysol	Ysgol
		Iechyd a Gofal	Ysgol

Yn ogystal mae myfyrwyr yn derbyn gwersi mewn Addysg Bersonol a Chymeithasol, Sgiliau Hanfodol ac Ehangach, Addysg Grefyddol ac Ymarfer Corff.

Fel rhan o'r rhaglen dysgu mae myfyrwyr hefyd yn cael profiad o Waith Gwirfoddol, Profiad Gwaith, Addysg Diwydiant a Gyrfau, Paratoi ar gyfer Addysg Uwch (Cynllun Aur).

Cynigir hefyd gyfleoedd i ail sefyll TGAU Cymraeg, Saesneg a Mathemateg yn ôl cais y disgybl.

Monitro'r Cwricwlwm

Mae'r cwricwlwm yn cael ei adolygu yn flynyddol yn yr Is-bwyllgor Cwricwlwm a Staffio cyn cael ei gymeradwyo gan Fwrdd Llawn y Corff Llywodraethol. Datblygir y cwricwlwm yn dilyn ymgynghori rhwng staff, llywodraethwyr, disgyblion, rhieni a'r gymuned leol.

Gellir mesur ansawdd y cwricwlwm drwy weld yr effaith y mae ei gynnwys, ei brosesau a'i drefniadaeth yn eu cael ar ddatblygiad personol a chymdeithasol y disgybl.

Mesurir y cwricwlwm yn erbyn y meini prawf canlynol a disgwylir iddo:

- ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion i gyrraedd safonau uchel. O'r herwydd, bydd safonau gwaith ac ymatebion disgyblion yn cymryd blaenoriaeth wrth wneud penderfyniadau am ddatblygiadau cwricwlaidd;
- gydymffurfio gyda gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn ogystal adlewyrchu nodau'r ysgol;
- fod yn eang yn y profiadau mae'n cynnig i ddisgyblion ei sail. Yn ychwanegol disgwylir ehangder yng nghynlluniau dysgu pynciau unigol a chynlluniau'r ysgol gyfan ar gyfer cwmpasu elfennau'r gofynion cyffredin;
- sicrhau cynnwys sydd yn addas ar gyfer galluoedd a diddordebau disgyblion;

- fod yn effeithiol ei drefniant yn nhermau gofynion adrannau unigol, ysgol gyfan neu grŵp o ddisgyblion naill ai o fewn dosbarthiadau, neu setio, ffrydio neu fandio. Dylir hefyd sicrhau trefniadau ar gyfer darparu cefnogaeth i ddisgyblion sydd ganddynt anghenion dysgu ychwanegol;
- baratoi disgyblion ar gyfer y byd gwaith a bywyd fel oedolion;
- yn cael ei atgyfnerthu gan weithgareddau allgyrsiol a drefnir gan adrannau unigol, aelodau o staff neu ysgol gyfan yn ychwanegol i'r rhaglen ffurfiol;
- sicrhau fod pob disgybl yn cael cyfle teg a chyfartal i gael mynediad i'r amrywiaeth lawn o brofiadau mae'r ysgol yn eu cynnig;
- roi ystyriaeth i bolisiau perthnasol eraill y Cynulliad, AALI a'r ysgol e.e. Iaith, Asesu, Cyfle Cyfartal, ADY ac yn y blaen.

Trefnu'r Cwricwlwm

Tasgau sydd angen gwneud diwedd mis Gorffennaf o safbwynt y cwricwlwm/amserlen:

Dyddiad	Beth	Cyfrifoldeb
Medi	Monitro'r amserlen ac addasu os bydd problemau.	ZRW/ET
	Penaethiaid Adran i drosglwyddo gwybodaeth grwpiau dysgu B12 a B13 i'r Swyddog Data.	PA/MMc
	Penaethiaid Adran i drosglwyddo gwybodaeth am newidiadau grwpiau dysgu CA3 a CA4 i'r Swyddog Data.	PA/MMc
	Cadarnhau niferoedd disgyblion ar gyfer cyrsiau'r Bartneriaeth Addysg Gymraeg a Choleg Sir Gâr.	ZRW/RR
	Cadarnhau trefniadau teithio a niferoedd disgyblion ar gyfer cyrsiau nad ydynt yn cael eu dysgu ar y safle gyda'r Bwrsar.	ZRW/RR
	Dosbarthu llythyron Caniatâd Trefniadau Teithio i rieni ar gyfer disgyblion sydd yn gadael y safle ar gyfer gwersi.	ZRW/CJ (Bwrsar Cynorthwyol)
Hydref	Cyflwyno Cwricwlwm 2009-10 i'r Is-Bwyllgor Cwricwlwm a Staffio'r Corff Llywodraethol.	ZRW
	Cyflwyno Dadansoddiad Staffio/Cwricwlwm i'r AALI	ZRW
	Diweddarau manylion Cwricwlwm Lleol 14–19 ar wefan Gyrfa Cymru	ZRW/MMc
	Cwblhau Arolwg 1 PLASC a thaflenni ystadegau.	ZRW/EMac/MMc
	Cwblhau ceisiadau grantiau i'r AALI	LLJ
Tachwedd	Cynllun drafft o grid staffio'r flwyddyn academiaidd nesaf gan drafod gyda'r Pennaeth am ddatblygiadau cwricwlaidd.	ZRW
	Penaethiaid B9 a Chweched Dosbarth yn dechrau paratoi llyfrynau dewisiadau ar gyfer B1 a B11 gan dderbyn diweddariad o ddisgrifiadau pwnc oddi wrth PA.	TH/RR
Rhagfyr	Adolygu drafft y cwricwlwm gan ystyried: • Sefyllfa ariannol • Datblygiadau cwricwlaidd • Dewisiadau • Cynllun Datblygu Ysgol • Adroddiadau hunan arfarnu • Toriadau arfaethedig Ymgynghori gyda staff a llywodraethwyr	LLJ/UDA
Ionawr -	Dechrau arolygiadau dewisiadau opsiwn agored i B9 a B11 o dan	ZRW/ET

Ebrill	ofal y Pennaeth Cynorthwyol (Cwricwlwm) a chymorth y Pennaeth Blwyddyn. Cynhelir 4 arolwg yn ystod Tymor y Gwanwyn. Dadansoddiad o'r canlyniadau.	
	B11 Arolwg 1 - creu rhestr o gyrchnodau gadawyr gyda chymorth y Swyddog Data.	ZRW/MM
	Trafod dewisiadau disgyblion ac oblygiadau hyn gyda'r Pennaeth a'r Uwch Dîm Arwain.	ZRW
Chwefror	Noson Opsiynau Bl.11 wedi ei drefnu er mwyn marchnata cyrsiau	PA/Cydlynwyr Pwnc
Ebrill	Trosglwyddo gwybodaeth cwricwlwm i'r Amserlennydd cyn Pasg	ZRW
	Dosbarthu taflenni Gofynion Amserlen i'r PA a'u derbyn nôl.	ZRW/RR
	Trafod y gofynion gyda'r Pennaeth a Phenaethiaid Adran.	ZRW
	Pennaeth Blwyddyn 9 i drefnu diwrnod dewisiadau gyda chymorth John Selby, Swyddog Gyrfau.	PH/JS
Mai	Dechrau ar y gwaith o greu amserlen ysgol.	ZRW/RR
	Trafod gyda'r Pennaeth, PA ac aelodau o staff ynglŷn ag unrhyw addasiadau.	LII/ZRW/PA
Mehafin	Trafod a gweithio ar slotiau amserlenni'r partneriaethau gwahanol CA4/5.	ZRW/JC
	Trosglwyddo amcanrifau disgyblion i'r Bartneriaeth Addysg Gymraeg	ZRW/RR
Gorffennaf	Dosbarthu amserlenni drafft i Benaethiaid Adran.	ZRW
	Penaethiaid Adran i arfarnu tegwch dosbarthiad ystafelloedd dysgu ar gyfer aelodau'r adran. Newidiadau i'w cyflwyno i'r Amserlennydd.	RR
	Penaethiaid Adran i gyflwyno rhestrau setiau dysgu CA3 a CA4 i'r Swyddog Data (MMc) i'w cofnodi ar sytem NovaT,	PA/RR
	Cyflwyno rhestr o athrawon cyflenwi (os oes angen) ac oriau i'r Bwrsar er gwybodaeth AAL.	PA/MMc
	Amserlennydd i gyflwyno gwybodaeth amserlen staff rhan amser i'r Dirprwy.	ZRW/EM
Awst	Ar ddiwrnod canlyniadau TGAU dosbarthu taflen blociau terfynol dewisiadau i ddisgyblion er gwybodaeth i'w dychwelyd ar ddiwrnod cyntaf y tymor.	RR
	Cyfweld disgyblion sydd yn ansicr o'u dewisiadau.	ZRW
	Dosbarthu copïau terfynol o'r amserlenni unigol i athrawon.	ZRW/TH
	Dosbarthu copïau o amserlenni blwyddyn i'r Penaethiaid Blwyddyn er mwyn gwneud amserlen gwaith cartref.	ZRW/RR
	Dosbarthu copïau o amserlenni blwyddyn i'r ALENCO ar gyfer y cynorthwywyr.	ZRW/RR